

RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN dan Adrannau 30 a 31 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y manylwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014)

1 Rhwng 5 Gorffennaf a 30 Gorffennaf 2021 yn gynwysedig, rhwng 10.00 y.b. a 4.00 y.p. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gall unrhyw un sydd â diddordeb, ar ôl cyflwyno cais i'r Prif Weithredwr, archwilio a gwneud copiâu o gyfrifon y sefydliadau a enwir uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ynghyd â'r holl lyfrau, gweithredoedd, cytundebau, biliau, talebau a derbynebau ym Mhencadlys y Gwasanaeth. Cysylltwch â ni ymlaen llaw ar 01745 535282 neu 07787 578559.

2 Ar neu ar ôl 2 Awst 2021 am 10.00 y.b. bydd yr Archwiliwr Cyffredinol Cymru neu ei gynrychiolydd o Archwilio Cymru, Uned 5325, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, LL22 8LG, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol yn yr ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt, yn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gall unrhyw etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd ef/hi fynd gerbron yr Archwiliwr ym Mhencadlys y Gwasanaeth a enwyd a chyflwyno gwrthwynebiad i unrhyw un o'r cyfrifon. Cysylltwch ymlaen llaw ar 02920 320500.

3 Ni all yr etholwr na'i gynrychiolydd wneud unrhyw wrthwynebiad oni bai fod yr Archwiliwr Cyffredinol wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig ymlaen llaw ac ar ba sail y mae'n cael ei wneud. Dylid anfon copi o'r hysbysiad i'r sawl sydd wedi llofnodi isod yn y cyfeiriad a nodir.

Dyddiedig 26 Mai 2021

Simon Smith, Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr

Ken Finch CPFA, Trysorydd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru